# MYNEGAI Y CYFRIFON


| | |
|---|---|
| Rhagair | 2 |
| Datganiad o Gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Prif Weithredwr | 6 |
| Datganiad ar y System o Reolaeth Ariannol Fewnol | 8 |
| Tystysgrif y Rheolwr Archwilydd Cyffredinol i Aelodau Cynulliad Cyffredinol Cymru | 10 |
| Cyfrif Incwm a Gwariant Cyfun | 12 |
| Mantolen yr Awdurdod a'r Fantolen Gyfun | 14 |
| Datganiad Llif Arian Cyfun | 16 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 18 |
| Crynodeb Pum Mlynedd | 52 |
| Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru | 54 |


Mae Awdurdod Datblygu Cymru yn cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg i ddiwylliant ac etifeddiaeth holl bobl Cymru, ac mae felly wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Awdurdod felly wedi llunio Cynllun Iaith sy'n nodi sut y bydd yn gweithredu'r egwyddor honno. Fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 2 Chwefror 2000.

Gellir cael copi o Gynllun Iaith Gymraeg y WDA trwy wneud cais i'r Brif Swyddfa yn y cyfeiriad sy'n ymddangos ar gefn y cyhoeddiad hwn.

# INDEX OF ACCOUNTS


| | |
|---|---|
| Foreword | 3 |
| Statement of the Agency's and Chief Executive's Responsibilities | 7 |
| Statement on the System of Internal Financial Control | 9 |
| Certificate of the Auditor General for Wales to the Members of the National Assembly for Wales | 11 |
| Consolidated Income and Expenditure Account | 13 |
| Agency and Consolidated Balance Sheets | 15 |
| Consolidated Cash Flow Statement | 17 |
| Notes to the Accounts | 19 |
| Five Year Summary | 53 |
| Report of the Auditor General for Wales | 55 |


The Welsh Development Agency recognises the importance of the Welsh language to the culture and heritage of all the people of Wales, and has therefore adopted the principle that in the conduct of public business in Wales it will treat the Welsh and English languages on a basis of equality. The Agency has therefore formulated a Welsh Language Scheme which sets out how it will give effect to that principle. This was approved by the Welsh Language Board on 2 February 2000.

Copies of the WDA Welsh Language Scheme are available on request from the Head Office address that appears on the rear of this publication.

# Rhagair

**Cefndir Statudol**

Mae Awdurdod Datblygu Cymru yn gorff cyhoeddus, a sefydlwyd ym 1976 dan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (fel y'i diwygwyd yn arbennig gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998). Dan y ddeddfwriaeth hon gall yr Awdurdod weithredu amrediad o weithgareddau a chynlluniau i gyflawni ei bwrpasau.

Y pwrpasau hynny yw:

- hyrwyddo datblygiad economaidd a chymdeithasol Cymru neu unrhyw ran o Gymru ac yn y cyswllt hwnnw ddarparu, cynnal neu ddiogelu cyflogaeth
- hybu effeithlonrwydd mewn busnes a gallu cystadleuol rhyngwladol yng Nghymru: a
- hyrwyddo gwella'r amgylchedd yng Nghymru, gan roi ystyriaeth i'r mwynderau presennol.

Paratowyd y cyfrifon hyn gan yr Awdurdod dan Atodlen 3 paragraff 8 Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 ac maent yn cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 1999 i 31 Mawrth 2000 yn y ffurf a bennwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ( y Cynulliad) gyda chymeradwyaeth y Trysorlys.

Mae copi o'r cyfarwyddyd cyfrifon ar gael i'w archwilio yn swyddfa gofrestredig yr Awdurdod.

Caiff gweithgareddau'r Awdurdod eu cyllido'n rhannol drwy daliadau a wneir gan y Cynulliad a hefyd gan fenthyciadau o'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol, a'r Gymuned Glo a Dur Ewropeaidd.

**Ymgymeriadau Is-gwmni**

Mae'r cyfrifon yn ymgorffori canlyniadau Welsh Development Capital (Management) Limited, is-gwmni sy'n eiddo llwyr i'r Awdurdod, sy'n cyflawni buddsoddiadau mewn prosiectau cyfalaf menter. Ni fasnachodd Welsh Venture Capital Cyfyngedig, is-gwmni arall sy'n eiddo llwyr i'r Awdurdod, yn ystod y flwyddyn a chafodd ei ddirwyn i ben yn swyddogol ar 6 Hydref 1999.

Trosglwyddodd Hybu Bwyd Cymru Cyfyngedig ei holl asedau a'i rwymedigaethau, ynghyd â'i gronfeydd wrth gefn i'r Awdurdod yn union cyn dechrau busnes ar 1 Ebrill 1999 a rhoddodd y gorau i fasnachu o'r adeg hon. Ni fasnachodd dau is-gwmni arall, sef Blas ar Gymru (Manwerthu) Cyfyngedig a Blas ar Gymru Cyfyngedig yn ystod y flwyddyn gan i'r Awdurdod dderbyn eu gweithgareddau o 1 Ebrill 1999. Mae'r Awdurdod yn bwriadu dirwyn y cwmnïau hyn i ben yn ffurfiol yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001.

Mae pob is-gwmni yn paratoi eu cyfrifon eu hunain am yr un cyfnod cyfrifeg â'r Awdurdod a defnyddir polisïau cyfrifeg unffurf.

**Archwilydd**

Caiff cyfrifon yr Awdurdod eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

**Adolygu Gweithgareddau a Datblygiadau'r Dyfodol**

Cynhwysir adolygiad o weithgareddau'r Awdurdod a'i gynlluniau datblygu ar gyfer y dyfodol ynghyd â'i berfformiad ar dargedau strategol allweddol yn yr Adroddiad Blynyddol.

O 1 Gorffennaf 1999 caiff yr Awdurdod ei gyllido gan a bydd yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn cynnwys darpariaeth i'r Cynulliad ailstrwythuro swyddogaethau'r Awdurdod Datblygu.

Ar 29 Mawrth 1999, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru y dylai Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ddirwyn ei gweithgareddau i ben ar 31 Mawrth 2000, gyda'r diddymiad yn digwydd ar 30 Mehefin 2000 ac asedau a rhwymedigaethau datblygu'r Gorfforaeth yn cael eu trosglwyddo i'r Awdurdod. O ganlyniad ar 31 Mawrth 2000 trosglwyddwyd rhai asedau a rhwymedigaethau i'r Awdurdod ac fe'u cofnodir yn y cyfrifon hyn.

Dengys y cyfrif Incwm a Gwariant Cyfun warged gwariant dros incwm am y flwyddyn o £122.1m o gymharu â £113.0m (ailddatgan) ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Ar ôl trosglwyddo'r swm hwn i gronfeydd mae'r balans a gariwyd ymlaen ar gronfeydd yn gyfanswm o £174.1m.

# FOREWORD

**Statutory Background**

The Welsh Development Agency is a public body, established in 1976 under the Welsh Development Agency Act 1975 (as amended in particular by the Government of Wales Act 1998). Under this legislation the Agency may exercise a range of activities and initiatives to fulfil its purposes.

These purposes are:

- to further the economic and social development of Wales or any part of Wales and in that connection to provide, maintain or safeguard employment;
- to promote efficiency in business and international competitiveness in Wales; and
- to further the improvement of the environment in Wales, having regard to existing amenity.

The accounts have been prepared by the Agency pursuant to Schedule 3 paragraph 8 of the Welsh Development Agency Act 1975 and cover the period 1 April 1999 to 31 March 2000 in the form determined by the National Assembly for Wales (the Assembly), with the approval of the Treasury.

A copy of the accounts direction is available for inspection at the Agency's registered office.

The Agency's activities are partially financed by payments made by the Assembly and also by borrowings from the National Loans Fund, and the European Coal and Steel Community.

**Subsidiary Undertakings**

The accounts incorporate the results of Welsh Development Capital (Management) Limited, a wholly owned subsidiary of the Agency, which undertakes investments in venture capital projects. Welsh Venture Capital Limited, a further wholly owned subsidiary of the Agency, did not trade during the year and was formally wound up on 6 October 1999.

Welsh Food Promotions Limited, transferred all its assets and liabilities, together with its reserves to the Agency immediately before the start of business on 1 April 1999 and ceased trading from this time. Two further subsidiaries, Taste of Wales (Retail) Limited and Taste of Wales Limited, also did not trade during the year as their activities were taken over by the Agency from 1 April 1999. The Agency intends to formally wind up these companies during the 2000-2001 financial year.

All subsidiaries prepare their accounts for the same accounting period as the Agency and uniform accounting policies are adopted.

**Auditor**

The accounts of the Agency are audited by the Auditor General for Wales as required under the Government of Wales Act 1998.

**Review of Activities and Future Developments**

A review of the Agency's activities and future development plans together with its performance against key strategic targets are contained in the Annual Report.

From 1 July 1999 the Agency became funded by and accountable to the National Assembly for Wales. The Government of Wales Act 1998 includes provision for the Assembly to restructure the functions of the Agency.

On 29 March 1999, the Secretary of State for Wales, announced that the Cardiff Bay Development Corporation should wind up its activities on 31 March 2000, with dissolution taking place on 1 July 2000 and that the Corporation’s development assets and liabilities be transferred to the Agency. Consequently on 31 March 2000 certain assets and liabilities were transferred to the Agency and are reported within these accounts.

The Consolidated Income and Expenditure account shows an excess of expenditure over income for the year of £122.1m, compared to £113.0m (restated) for the previous year. After transferring this sum to reserves, the carried forward balance on reserves amounts to £174.1m.

### Côd Talwyr Prydlon

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i setlo anfonebau a hawliadau eraill am daliad yn brydlon ac yn ategu côd talwyr prydlon y CBI yn llawn. Mae systemau ar waith i arolygu'r cylch taliad gan gadw ystadegau i gofnodi perfformiad talu ac i ddynodi meysydd lle medrir gwneud gwelliannau.

Yn achos contractau gweithiau ac adeiladu, lle cafodd y gwaith ei gwblhau'n foddhaol yn unol â thelerau'r prif gontract, nod yr Awdurdod yw talu o fewn 30 diwrnod o gyhoeddi tystysgrif ddilys. Cyflawnwyd hyn ar gyfer 98% o'r holl daliadau o'r fath a wnaed yn 1999-2000.

Yn achos nwyddau, gwasanaethau a hawliadau eraill, lle cwblhawyd y cyflenwad yn foddhaol, nod yr Awdurdod yw talu o fewn 30 diwrnod o dderbyn anfoneb neu hawliad dilys arall am daliad. Cyflawnwyd hyn ar gyfer 94% o daliadau o'r fath a wnaed yn 1999-2000.

### Cymathiad â'r Flwyddyn 2000

Yn unol â sawl corff arall yn ystod 1999, cwblhaodd yr Awdurdod ei raglen Blwyddyn 2000, a gynlluniwyd i leihau effaith bosibl y newid canrif ar systemau gwybodaeth yr Awdurdod ac effaith hynny ar y corff. Addaswyd neu diweddarwyd amrywiol systemau gwybodaeth ac elfennau o'r rhwydwaith technoleg er mwyn sicrhau ein bod yn barod ar gyfer y Flwyddyn 2000. Lluniwyd Cynllun Busnes Wrth Gefn a'i ddosbarthu i bob aelod o staff; roedd hwn yn nodi'r gwaith yr oedd angen ei wneud cyn y milflwydd er mwyn lliniaru problemau posibl yn ogystal â diffinio Trefn Gweithredu'r Mileniwm i ddelio â phroblemau posibl yn y ganrif newydd. O ganlyniad i'w raglen, ni phrofodd yr Awdurdod unrhyw broblemau o bwys o safbwynt pwnc y 'Flwyddyn 2000'.

### Ymgyfraniad Staff

Mae'r Awdurdod Datblygu yn cydnabod pwysigrwydd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff ar newidiadau a datblygiadau, o fewn y sefydliad a hefyd y sefydliadau allanol y mae'r Awdurdod Datblygu yn ymwneud â hwy.

Mae gwella ei rwydwaith cyfathrebu mewnol yn nod parhaol, drwy ymgyfraniad ei holl staff a hefyd gynrychiolwyr y staff.

Bydd yr Awdurdod Datblygu yn parhau i ymgynghori gyda'i gynrychiolwyr staff ar bob mater yn effeithio ar amodau a thelerau.

### Personau Anabl a Chyfle Cyfartal

Fel sefydliad cyfrifol mae'r Awdurdod Datblygu yn ymwybodol o'i oblygiadau i annog personau anabl i gymryd cyflogaeth ystyrlon. Mae Polisi Cyfle Cyfartal yr Awdurdod Datblygu yn gwneud yr ymrwymiad hwn yn glir.

Mae'r Awdurdod Datblygu yn annog ei reolwyr i ddarparu cyfleoedd ar gyfer yr anabl lle bynnag y bo'n ymarferol.

### Aelodau'r Bwrdd

Gwasanaethodd y personau dilynol fel aelodau o Fwrdd yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn:

**Syr David Rowe-Beddoe**, *Cadeirydd*
**Graham Hawker** CBE DL, *Dirprwy Gadeirydd*
**Brian Willott** CB, *Prif Weithredwr*
**Syr John Allen** CBE
**Susan Balsom**
**Noel Crowley**
**Trefor Jones** CBE, DL
**Dewi Lewis**
**Robin Lewis** OBE
**Syr Brian Smith**
**Dr Ruth Williams**
**George Wright** MBE

### Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Gwasanaethodd yr aelodau dilynol o Fwrdd yr Awdurod fel aelodau o'r Bwrdd Cydnabyddiaeth yn ystod y flwyddyn.

**Syr David Rowe-Beddoe**
**Graham Hawker** CBE, DL
**George Wright** MBE


### Pwyllgor Archwiliad, Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth

Gwasanaethodd yr aelodau dilynol o Fwrdd yr Awdurdod ar Bwyllgor Archwiliad, Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn.

**Syr John Allen** CBE
**Trefor Jones** CBE, DL
**Robin Lewis** OBE
**Syr Brian Smith**
**Dr Ruth Williams**
**Brian Willott** CB

### Diddordebau Aelodau Bwrdd

Mae cofrestr o'r holl ddiddordebau a ddatganwyd gan aelodau'r Bwrdd ar gael i'w harchwilio gan ysgrifennydd yr Awdurdod yn swyddfa gofrestredig yr Awdurdod, Tŷ Principality, Heol Tŷ'r Brodyr, Caerdydd CF10 3FE.



**Brian Willott**
*Prif Weithredwr ar ran y Bwrdd 3 Gorffennaf 2000*

**Prompt Payers' Code**

The Agency is committed to prompt settlement of invoices and other claims for payment and fully endorses the principles of the CBI prompt payers code. Systems are in place to monitor the payment cycle with statistics being maintained to record payment performance and to identify areas where improvements can be made.

In the case of works and construction contracts, where work has been completed satisfactorily in accordance with the terms of the main contract, the Agency's objective is to pay within 30 days of the issue of a valid certificate. This was achieved for 98% of all such payments made in 1999-2000.

In the case of goods, services and other claims, where the supply has been completed satisfactorily, the Agency's objective is to pay within 30 days of the receipt of an invoice or other valid claim for payment.
This was achieved for 94% of all such payments made in 1999-2000.

**Year 2000 Compliance**

In line with many other organisations during 1999, the Agency completed its Year 2000 programme, designed to minimise the potential impact on the organisation as a consequence of its information systems being disrupted by the change in century. Various information systems and elements of the technical infrastructure were modified or updated in order to ensure Year 2000 compliance. A Business Contingency Plan was developed and issued to all staff; this identified pre-millennium actions to be undertaken to mitigate potential problems as well as defining a Millennium Operating Regime (MOR) to deal with potential problems in the new millennium. As a consequence of its programme, the Agency experienced no significant problems with the 'Year 2000' issue.

**Employee Involvement**

The Agency recognises the importance of keeping its employees fully up to date with developments and changes, both within the organisation and those with which the Agency is involved externally.

Improving its internal communication network is an ongoing objective, both through the involvement of all the staff and employee representatives.

The Agency will continue to consult with its staff representatives on all issues affecting terms and conditions.

**Disabled Persons and Equal Opportunities**

As a responsible organisation the Agency is conscious of its obligations to encourage disabled persons to take up meaningful employment. The Agency's Equal Opportunities Policy makes clear this commitment.

The Agency encourages its managers to provide opportunities for the disabled wherever practicable.

**Board Members**

The following persons served as Board Members of the Agency during the year:

**Sir David Rowe-Beddoe** *Chairman*
**Graham Hawker** CBE, DL *Deputy Chairman*
**Brian Willott** CB *Chief Executive*
**Sir John Allen** CBE
**Susan Balsom**
**Noel Crowley**
**Trefor Jones** CBE, DL
**Dewi Lewis**
**Robin Lewis OBE**
**Sir Brian Smith**
**Dr Ruth Williams**
**George Wright** MBE

**Remuneration Committee**

The following Board Members served on the Agency's Remuneration Committee during the year.

**Sir David Rowe-Beddoe**
**Graham Hawker** CBE, DL
**George Wright** MBE

**Audit, Compliance and Legal Committee**

The following Board Members served on the Agency's Audit, Compliance and Legal Committee during the year.

**Sir John Allen** CBE
**Trefor Jones** CBE, DL
**Robin Lewis** OBE
**Sir Brian Smith**
**Dr Ruth Williams**
**Brian Willott** CB

**Board Members' Interests**

A register of all declared interests of the Members of the Board is available for inspection from the Agency's Secretary at the Agency's registered office: Principality House, The Friary, Cardiff CF10 3FE.

**Brian Willott**
*Chief Executive on behalf of the Board 3 July 2000*

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Awdurdod Datblygu a'r Prif Weithredwr

Dan Atodlen 3, paragraff 8 Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (fel y'i newidiwyd), mae'n ofynnol i Awdurdod Datblygu Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y ffurf ac ar y sail a benderfynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt ddangos golwg gywir a theg o gyflwr busnes yr Awdurdod Datblygu ar ddiwedd y flwyddyn a'i incwm a gwariant a llif arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Awdurdod Datblygu:

- *cydymffurfio â'r holl ofynion cyfrifeg a datgeliad perthnasol a nodir yn y cyfarwyddyd cyfrifon gan y Cynulliad, ac o fewn hynny ddewis polisïau cyfrifeg addas a'u defnyddio ar sail gyson;*
- *gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;*
- *nodi os y dilynwyd safonau cyfrifeg cymwys a datgelu ac esbonio unrhyw ymadawiadau sylweddol yn y datganiadau ariannol;*
- *paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes parhaol, os nad yw'n amhriodol i dybio y bydd yr Awdurdod yn parhau mewn gweithrediad.*

Mae Prif Swyddog Cyfrifeg y Cynulliad wedi dynodi Prif Weithredwr Awdurdod Datblygu Cymru yn Swyddog Cyfrifeg i'r Awdurdod Datblygu. Fel Swyddog Cyfrifeg mae'n gyfrifol am reolaeth gywir yr arian cyhoeddus y mae'n atebol amdanynt yn cynnwys eu rheoleidd-dra a'u priodolder. Rhaid iddo sicrhau y dilynir gweithdrefnau ariannol cywir, ac y cedwir cofnodion cyfrifeg yn y ffurf a nodwyd ar gyfer cyfrifon cyhoeddedig ac y diogelir y cronfeydd cyhoeddus a'r asedau eraill y mae'n gyfrifol amdanynt. Nodir ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifeg yn y Memorandwm Swyddog Cyfrifeg a ddosbarthwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

# Statement of the Agency's and Chief Executive's Responsibilities

Under Schedule 3 paragraph 8 of the Welsh Development Agency Act 1975 (as amended), the Welsh Development Agency is required to prepare a statement of accounts for each financial year in the form and on the basis determined by the Assembly, with the approval of the Treasury. The accounts are prepared on an accruals basis and must show a true and fair view of the Agency's state of affairs at the year end and of its income and expenditure and cash flows for the financial year.

In preparing the accounts the Agency is required to:

- *observe all relevant accounting and disclosure requirements as set out in the accounts direction issued by the Assembly, and within that select suitable accounting policies and apply them on a consistent basis;*
- *make judgements and estimates on a reasonable basis;*
- *state whether applicable accounting standards have been followed and disclose and explain any material departures in the financial statements;*
- *prepare the financial statements on the going concern basis, unless it is inappropriate to presume that the Agency will continue in operation.*

The Principal Accounting Officer for the Assembly has designated the Chief Executive of the Welsh Development Agency as the Accounting Officer for the Agency. As Accounting Officer he is responsible for the proper control of the public finances for which he is answerable, including their regularity and propriety. He must ensure that proper financial procedures are followed, that accounting records are maintained in the form prescribed for published accounts and that the public funds and other assets for which he is responsible are safeguarded. His relevant responsibilities as Accounting Officer are set out in the Accounting Officer's Memorandum issued by the National Assembly.

# Datganiad ar y System o Reoleth Ariannol Fewnol

Fel Swyddog Cyfrifeg, rwy'n cydnabod fy nghyfrifoldeb dros sicrhau y caiff system effeithlon o reolaeth ariannol fewnol ei chynnal a'i gweithredu gan yr Awdurdod Datblygu.

Dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd llwyr y gall y system roi fod yr asedau yn cael eu diogelu, y caiff trafodion eu hawdurdodi a'u cofnodi'n gywir, ac y caiff camgymeriadau neu afreoleidd-dra sylweddol un ai eu hatal neu y byddid yn eu darganfod yn brydlon.

Mae'r system o reolaeth ariannol fewnol yn seiliedig ar fframwaith o wybodaeth rheolaeth gyson, gweithdrefnau gweinyddol yn cynnwys segregeiddiad dyletswyddau, a system o ddirprwyo ac atebolrwydd.

Yn arbennig, mae'n cynnwys:

- *systemau cyllidebu cynhwysfawr gyda chyllideb flynyddol a adolygir ac a gytunir gan Fwrdd yr Awdurdod Datblygu;*
- *adolygiadau rheolaidd gan y Bwrdd o adroddiadau ariannol cyfnodol a blynyddol sy'n nodi perfformiad ariannol yn erbyn y rhagolygon;*
- *gosod targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall;*
- *canllawiau rheolaeth buddsoddiad cyfalaf a ddiffiniwyd yn glir;*
- *disgyblaethau rheolaeth prosiect ffurfiol, fel bo'n briodol.*

Mae'r Awdurdod Datblygu yn caffael gwasanaethau archwiliad mewnol dan gontract gan Ernst & Young (o 1 Ebrill 2000 Grant Thornton), sy'n gweithredu i safonau a ddiffiniwyd yn Llawlyfr Archwiliad Mewnol y Llywodraeth. Caiff gwaith archwiliad mewnol ei drwytho gan ddadansoddiad o'r risg y mae'r Awdurdod Datblygu yn agored iddo ac mae cynlluniau archwiliad blynyddol mewnol yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn. Caiff y dadansoddiad o risg a'r cynlluniau archwiliad mewnol eu cadarnhau gan Bwyllgor Archwiliad, Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth yr Awdurdod Datblygu a'u cymeradwyo gennyf i. O leiaf unwaith y flwyddyn, mae Archwiliad Mewnol yn rhoi adroddiad i mi ar weithgaredd archwiliad mewnol yn yr Awdurdod Datblygu. Mae'r adroddiad yn cynnwys eu barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd system rheolaeth ariannol fewnol yr Awdurdod Datblygu.

Caiff fy adolygiad o effeithlonrwydd y system o reolaeth ariannol fewnol ei drwytho gan waith yr archwilwyr mewnol, y Pwyllgor Archwiliad, Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth sy'n arolygu gwaith yr archwilydd mewnol, y rheolwyr gweithredol o fewn yr Awdurdod Datblygu sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth ariannol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheolaeth ac adroddiadau eraill.

Fel Swyddog Cyfrifeg, rwy'n ymwybodol o argymhellion Pwyllgor Turnbull ac rwy'n cymryd camau rhesymol i lunio datganiad rheolaeth fewnol fel sy'n ofynnol gan y Trysorlys ac yn unol â'r canllawiau sydd i'w cyhoeddi ganddynt, erbyn y flwyddyn sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2002.



**Brian Willott**
*Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifeg Gorffennaf 1999*

# Statement on the System of Internal Financial Control

As Accounting Officer, I acknowledge my responsibility for ensuring that an effective system of internal financial control is maintained and operated by the Agency.

The system can provide only reasonable and not absolute assurance that assets are safeguarded, transactions authorised and properly recorded, and that material errors or irregularities are either prevented or would be detected within a timely period.

The system of internal financial control is based on a framework of regular management information, administrative procedures including the segregation of duties, and a system of delegation and accountability.

In particular, it includes:

- *comprehensive budgeting systems with an annual budget which is reviewed and agreed by the Agency's Board;*
- *regular reviews by the Board of periodic and annual financial reports which indicate financial performance against the forecasts;*
- *setting targets to measure financial and other performance;*
- *clearly defined capital investment control guidelines;*
- *as appropriate, formal project management disciplines.*

The Agency procures internal audit services under contract from Ernst & Young (from 1 April 2000 Grant Thornton), which operates to standards defined in the Government Internal Audit Manual. The work of internal audit is informed by an analysis of the risk to which the Agency is exposed and annual internal audit plans are based on this analysis. The analysis of risk and the internal audit plans are endorsed by the Agency's Audit, Compliance and Legal Committee and approved by me. At least annually, Internal Audit provide me with a report on internal audit activity in the Agency.
The report includes their independent opinion on the adequacy and effectiveness of the Agency's system of internal financial control.

My review of the effectiveness of the system of internal financial control is informed by the work of the internal auditor, the Audit, Compliance and Legal Committee which oversees the work of the internal auditor, the executive managers within the Agency who have responsibility for the development and maintenance of the financial control framework, and comments made by the external auditors in their management letter and other reports.

As Accounting Officer, I am aware of the recommendations of the Turnbull Committee and I am taking reasonable steps to comply with the Treasury's requirement for a statement of internal control to be prepared for the year ended 31 March 2002, in accordance with guidance to be issued by them.

**Brian Willott**
*Chief Executive and Accounting Officer 3 July 2000*

# Tystysgrif y Rheolwr Archwilydd Cyffredinol i Aelodau Cynulliad Cyffredinol Cymru

Tystiaf i mi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 12 i 50 dan Atodlen 3 paragraff 8 Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i addaswyd gan ailbrisiad asedau sefydlog, eiddo neilltuol a ddaliwyd i'w hailwerthu a'r polisïau cyfrifeg a nodir ar dudalennau 18 a 20.

**Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod Datblygu, y Swyddog Cyfrifeg a'r Archwilydd**

Fel a ddisgrifir ar dudalen 6, yr Awdurdod Datblygu a'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Yr Awdurdod Datblygu a'r Prif Weithredwr sydd hefyd yn gyfrifol am baratoi'r Rhagair. Caiff fy nghyfrifoldebau i fel archwilydd annibynnol eu sefydlu gan statud a'u harwain gan y Bwrdd Arferion Archwilio a chyfarwyddyd ethegol y proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn ar p'un ai yw'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg ac wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn ôl y gofynion hynny gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac os yw'r gwariant ac incwm wedi eu cymhwyso i'r pwrpasau a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mhob cyswllt sylweddol a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio gyda'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Rwyf hefyd yn adrodd os credaf nad yw'r Rhagair yn gyson gyda'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Awdurdod wedi cadw cofnodion cyfrifeg cywir, neu os nad ydwyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Darllenaf y wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol gan ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif wrth ddod yn ymwybodol o unrhyw gam-ddatganiadau ymddangosiadol neu anghysondebau materol gyda'r datganiadau ariannol.

Adolygaf p'un a yw'r datganiad ar dudalen 8 yn adlewyrchu cydymffurfiaeth yr Awdurdod gyda chyfarwyddyd y Trysorlys ar 'Lywodraeth gorfforaethol: datganiad ar y system o reolaeth ariannol fewnol'. Adroddaf os nad yw'n ateb y gofynion a nodwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiadau yn gamarweiniol neu'n anghyson gyda gwybodaeth arall y gwn amdani o fy archwiliad o'r datganiadau ariannol.

**Sail y farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwiliad a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwiliad. Mae archwiliad yn cynnwys astudiaeth, ar sail prawf, o dystiolaeth berthnasol i'r symiau, dadleniadau a rheoleidd-dra trafodion ariannol a gynhwyswyd yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a dyfarniadau sylweddol a wnaed gan yr Awdurdod a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol a ph'un ai yw'r polisïau cyfrifeg yn briodol i amgylchiadau'r Awdurdod, yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u dadlennu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a ystyriais yn angenrheidiol er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol yn rhydd o gam-ddatganiad sylweddol, p'un ai a achoswyd drwy gamgymeriad, neu drwy dwyll neu afreoleidd-dra arall ac y cafodd y gwariant a'r incwm, ym mhob cyswllt sylweddol, eu cymhwyso i'r pwrpasau a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio gyda'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth ffurfio fy marn, gwerthusais hefyd ddigonolrwydd cyffredinol cyflwyniad yr wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

**Barn**

Yn fy marn:

- *mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg o gyflwr busnes Awdurdod Datblygu Cymru a'r Grŵp ar 31 Mawrth 2000 ac am ormodedd gwariant dros incwm, cyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig a llif arian y Grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny ac wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn ôl y gofynion hynny gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac*
- *ym mhob cyswllt sylweddol cymhwyswyd y gwariant a'r incwm ar gyfer y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio gyda'r awdurdodau sy'n eu rheoli.*

Gweler hefyd fy adroddiad ar dudalennau 54 i 58.

**John Bourn**
*Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

*7 Gorffennaf 2000*

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

# Certificate of the Auditor General for Wales to the Members of the National Assembly for Wales

I certify that I have audited the financial statements on pages 13 to 51 under paragraph 8 of Schedule 3 to the Welsh Development Agency Act 1975. These financial statements have been prepared under the historical cost convention as modified by the revaluation of fixed assets, certain properties held for resale and the accounting policies set out on pages 19 to 21.

**Respective responsibilities of the Agency, the Chief Executive and Auditor**

As described on page 7 the Agency and Chief Executive are responsible for the preparation of the financial statements and for ensuring the regularity of financial transactions. The Agency and Chief Executive are also responsible for the preparation of the Foreword. My responsibilities, as independent auditor, are established by statute and guided by the Auditing Practices Board and the auditing profession's ethical guidance.

I report my opinion as to whether the financial statements give a true and fair view and are properly prepared in accordance with the Welsh Development Agency Act 1975 and directions made thereunder by the National Assembly for Wales and whether in all material respects the expenditure and income have been applied to the purposes intended by the National Assembly for Wales and the financial transactions conform to the authorities which govern them. I also report if, in my opinion, the Foreword is not consistent with the financial statements, if the Agency has not kept proper accounting records, or if I have not received all the information and explanations I require for my audit.

I read the other information contained in the Annual Report and consider whether it is consistent with the audited financial statements. I consider the implications for my certificate if I become aware of any apparent mis-statements or material inconsistancies with the financial statements.

I review whether the statement on page 9 reflects the Agency's compliance with Treasury's guidance on ‘Corporate governance: statement on the system of internal financial control’. I report if it does not meet the requirements specified by Treasury, or if the statement is misleading or inconsistent with other information I am aware of from my audit of the financial statements.

**Basis of opinion**

I conducted my audit in accordance with Auditing Standards issued by the Auditing Practices Board. An audit includes examination, on a test basis, of evidence relevant to the amounts, disclosures and regularity of financial transactions included in the financial statements. It also includes an assessment of the significant estimates and judgments made by the Agency and Chief Executive in the preparation of the financial statements and of whether the accounting policies are appropriate to the Agency's circumstances, consistently applied and adequately disclosed.

I planned and performed my audit so as to obtain all the information and explanations which I considered necessary in order to provide me with sufficient evidence to give reasonable assurance that the financial statements are free from material mis-statement, whether caused by error, or by fraud or other irregularity and that, in all material respects, the expenditure and income have been applied to the purposes intended by the National Assembly for Wales and the financial transactions conform to the authorities which govern them. In forming my opinion I have also evaluated the overall adequacy of the presentation of information in the financial statements.

**Opinion**

In my opinion:

- *the financial statements give a true and fair view of the state of affairs of the Welsh Development Agency and the Group at 31 March 2000 and of the excess of expenditure over income, total recognised gains and losses and cash flows of the Group for the year then ended and have been properly prepared in accordance with the Welsh Development Agency Act 1975 and directions made thereunder by the National Assembly for Wales; and*
- *in all material respects the expenditure and income have been applied to the purposes intended by the National Assembly for Wales and the financial transactions conform to the authorities which govern them.*

See also my report on pages 55 to 59.

**John Bourn**
*Auditor General for Wales*

*7 July 2000*

National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1NA

# Cyfrif Incwm a Cwariant Cyfun

## Am y flwyddyn yn gorffen ar 31 Mawrth 2000

| | Nodyn | 2000 £'000 | 1999 £'000 (Ailddatgan) |
|---|---|---|---|
| **INCWM** | | | |
| Rhenti eiddo ac incwm cysylltiedig | 2 | **8,457** | 6,121 |
| Gwarged ar werthu eiddo a ddaliwyd a gyfer ailwerthu | | **10,389** | 6,107 |
| Llog derbyniadwy ac incwm tebyg | 3 | **1,169** | 1,313 |
| Incwm arall o fuddsoddiadau ased sefydlog | 4 | **1,034** | 184 |
| Incwm gweithredol arall yn cynnwys adenillion grant | 5 | **6,264** | 5,696 |
| **Cyfanswm Incwm** | | **27,313** | 19,421 |
| **GWARIANT** | | | |
| Gwasanaethau eiddo | 6 | **5,650** | 3,337 |
| Diffyg ar werthu eiddo a ddaliwyd ar gyfer ailwerthu | | **1,444** | 6,444 |
| Llog taladwy a thaliadau tebyg | 7 | **1,805** | 1,524 |
| Costau eraill rheoli buddsoddiad | 8 | **1,887** | 335 |
| Costau gweinyddol | 9 | **28,156** | 22,497 |
| Costau ailstrwythuro | 22 | **20** | 656 |
| Gweithgareddau gweithredol arall | 10 | **22,743** | 15,657 |
| Grantiau a weinyddwyd a chostau cysylltiedig | 11 | **63,087** | 74,728 |
| Diffyg ar ailbrisiad eiddo a ddaliwyd i'w ailwerthu | 19 | **24,730** | 7,205 |
| Cost dybiannol tâl cyfalaf | | **10,485** | 8,447 |
| **Cyfanswm Gwariant** | | **160,007** | 140,830 |
| **Gormodedd gwariant dros incwm ar weithgareddau cyffredin cyn trethiant** | | **(132,694)** | (121,409) |
| Trethiant | 23 | **139** | (43) |
| **Gormodedd gwariant dros incwm ar weithgareddau cyffredin ar ôl trethiant** | | **(132,555)** | (121,452) |
| **Addasiad ar gyfer cost dybiannol cyfalaf** | | **10,485** | 8,447 |
| **Gormodedd gwariant dros incwm a drosglwyddwyd i gronfeydd** | | **(122,070)** | (113,005) |

Y gormodedd gwariant dros incwm a briodolwyd i weithgareddau'r Awdurdod Datblygu ei hun oedd £121,967,000, (1999 £112,660,000 - Ailddatgan)

Mae'r holl ganlyniadau'n cyfeirio at weithgareddau sy'n parhau

| DATGANIAD O GRONFEYDD A CHYFANSWM ENILLION A CHOLLEDION CYDNABYDDEDIG | | | |
|---|---|---|---|
| Gormodedd gwariant dros incwm am y flwyddyn | | **(122,070)** | (113,005) |
| Cymorth grant a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn | | **114,812** | 117,300 |
| Grantiau Ewropeaidd | 35 | **3,611** | 5,444 |
| Cronfeydd wrth gefn a drosglwyddwyd o sefydliadau eraill | 37 | **11,503** | 48,136 |
| Addasiad gwerth teg | | **493** | - |
| Gwarged nas gwireddwyd ar ailbrisiad adeiladau er defnydd yr Awdurdod | | **768** | 1,284 |
| **Cyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig am y flwyddyn** | | **9,117** | 59,159 |
| Addasiad y flwyddyn flaenorol – Croniadau ar gyfer gwariant grantiau (gweler nodyn 1) | | **842** | |
| **Cyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig ers y cyfrifon blynyddol diwethaf** | | **9,959** | |
| Cronfeydd wrth gefn ar 1 Ebrill – (ailddatgan) | | **165,015** | 105,856 |
| **Cyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig am y flwyddyn** | | **9,117** | 59,159 |
| **Cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth** | | **174,132** | 165,015 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 18 i 50 yn ffurfio rhan o'r Cyfrifon hyn.

Mae ffigyrau y flwyddyn flaenorol am incwm a gwariant yn cynnwys gweithrediadau masnachol Cyfadrannau Tir a Chanolbarth Cymru yr Awdurdod am gyfnod o chwe mis o 1 Hydref 1998 i 31 Mawrth 1999.

# Consolidated Income and Expenditure Account

## FOR THE YEAR ENDED 31 MARCH 2000

| | Note | 2000 £'000 | 1999 £'000 (Restated) |
|---|---|---|---|
| **INCOME** | | | |
| Property rents and related income | 2 | **8,457** | 6,121 |
| Surplus on sale of properties held for resale | | **10,389** | 6,107 |
| Interest receivable and similar income | 3 | **1,169** | 1,313 |
| Other income from fixed asset investments | 4 | **1,034** | 184 |
| Other operating income including grant recoveries | 5 | **6,264** | 5,696 |
| **Total Income** | | **27,313** | 19,421 |
| **EXPENDITURE** | | | |
| Property services | 6 | **5,650** | 3,337 |
| Deficit on sale of properties held for resale | | **1,444** | 6,444 |
| Interest payable and similar charges | 7 | **1,805** | 1,524 |
| Other investment management costs | 8 | **1,887** | 335 |
| Administration expenses | 9 | **28,156** | 22,497 |
| Restructuring costs | 22 | **20** | 656 |
| Other operating activities | 10 | **22,743** | 15,657 |
| Grants administered and related costs | 11 | **63,087** | 74,728 |
| Deficit on revaluation of properties held for resale | 19 | **24,730** | 7,205 |
| Notional cost of capital charge | | **10,485** | 8,447 |
| **Total Expenditure** | | **160,007** | 140,830 |
| **Excess of expenditure over income on ordinary activities before taxation** | | **(132,694)** | (121,409) |
| Taxation | 23 | **139** | (43) |
| **Excess of expenditure over income on ordinary activities after taxation** | | **(132,555)** | (121,452) |
| **Adjustment for the notional cost of capital** | | **10,485** | 8,447 |
| **Excess of expenditure over income transferred to reserves** | | **(122,070)** | (113,005) |

The excess of expenditure over income attributable to the Agency's own activities was £121,967,000 (1999 £112,660,000 - Restated)

All results relate to continuing activities

| | Note | 2000 £'000 | 1999 £'000 (Restated) |
|---|---|---|---|
| **STATEMENT OF RESERVES AND TOTAL RECOGNISED GAINS AND LOSSES** | | | |
| Excess of expenditure over income for the year | | **(122,070)** | (113,005) |
| Grant in aid received during the year | | **114,812** | 117,300 |
| European grants | 35 | **3,611** | 5,444 |
| Reserves transferred from other organisations | 37 | **11,503** | 48,136 |
| Fair value adjustment | | **493** | - |
| Unrealised surplus on revaluation of own use properties | | **768** | 1,284 |
| **Total recognised gains & losses for the year** | | **9,117** | 59,159 |
| Prior year adjustment - Accruals for grant expenditure (see note 1) | | **842** | |
| **Total recognised gains & losses since last annual accounts** | | **9,959** | |
| Reserves at 1 April - (restated) | | **165,015** | 105,856 |
| **Total recognised gains & losses for the year** | | **9,117** | 59,159 |
| **Reserves at 31 March** | | **174,132** | 165,015 |

The notes on pages 19 to 51 form part of these Accounts

Prior year figures of income and expenditure, include transactions of the Agency's Mid Wales and Land Divisions, for the six month period 1 October 1998 to 31 March 1999.

# Mantolen yr Awdurdod a'r Fantolen Gyfun
## Ar 31 Mawrth 2000

| | Nodyn | Awdurdod | | Cyfun | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2000** | 1999 | **2000** | 1999 |
| | | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| | | | (Ailddatgan) | | (Ailddatgan) |
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | | | |
| Asedau diriaethol | 15 | **8,374** | 9,314 | **8,374** | 9,443 |
| Buddsoddiadau | 16 | **4,319** | 5,393 | **2,888** | 3,883 |
| Budd mewn cyd-fentrau | 17 | **11,261** | 12,812 | **11,261** | 12,812 |
| Morgeisi a benthyciadau eraill | 18 | **1,542** | 1,107 | **1,542** | 1,107 |
| | | **25,496** | 28,626 | **24,065** | 27,245 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Eiddo a ddelir i'w ailwerthu | 19 | **168,025** | 149,952 | **168,025** | 149,952 |
| Dyledwyr | 20 | **21,722** | 17,835 | **21,724** | 18,516 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | **6,139** | 5,844 | **8,145** | 7,599 |
| | | **195,886** | 173,631 | **197,894** | 176,067 |
| **RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | | | | |
| Credydwyr:<br>symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | 21 | **(20,515)** | (10,432) | **(21,168)** | (11,287) |
| Asedau cyfredol net | | **175,371** | 163,199 | **176,726** | 164,780 |
| **CYFANSWM ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | **200,867** | 191,825 | **200,791** | 192,025 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 22 | **(5,022)** | (5,332) | **(5,022)** | (5,332) |
| **ASEDAU NET** | | **195,845** | 186,493 | **195,769** | 186,693 |
| **CYLLIDWYD GAN** | | | | | |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus | 24 | **9,077** | 8,571 | **9,077** | 8,571 |
| Cyfalaf benthyciadau | 25 | **12,560** | 13,107 | **12,560** | 13,107 |
| Cronfa ailbrisiad | 26 | **2,596** | 2,010 | **2,596** | 2,010 |
| Cronfa gyffredinol | 26 | **171,612** | 162,805 | **171,536** | 163,005 |
| | | **195,845** | 186,493 | **195,769** | 186,693 |

Mae'r Nodiadau ar dudadalennau 18 i 50 yn ffurfio rhan o'r Cyfrifon hyn.



**Brian Willott**
*Swyddog Cyfrifeg*

*3 Gorffennaf 2000*

# Agency & Consolidated Balance Sheets
## At 31 March 2000

| | Note | Agency | | Consolidated | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2000** | 1999 | **2000** | 1999 |
| | | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| | | | (Restated) | | (Restated) |
| **FIXED ASSETS** | | | | | |
| Tangible assets | 15 | **8,374** | 9,314 | **8,374** | 9,443 |
| Investments | 16 | **4,319** | 5,393 | **2,888** | 3,883 |
| Interests in joint ventures | 17 | **11,261** | 12,812 | **11,261** | 12,812 |
| Mortgages and other loans | 18 | **1,542** | 1,107 | **1,542** | 1,107 |
| | | **25,496** | 28,626 | **24,065** | 27,245 |
| **CURRENT ASSETS** | | | | | |
| Properties held for resale | 19 | **168,025** | 149,952 | **168,025** | 149,952 |
| Debtors | 20 | **21,722** | 17,835 | **21,724** | 18,516 |
| Cash at bank and in hand | | **6,139** | 5,844 | **8,145** | 7,599 |
| | | **195,886** | 173,631 | **197,894** | 176,067 |
| **CURRENT LIABILITIES** | | | | | |
| Creditors: | | | | | |
| amounts falling due within one year | 21 | **(20,515)** | (10,432) | **(21,168)** | (11,287) |
| Net current assets | | **175,371** | 163,199 | **176,726** | 164,780 |
| **TOTAL ASSETS LESS CURRENT LIABILITIES** | | **200,867** | 191,825 | **200,791** | 192,025 |
| Provisions for liabilities and charges | 22 | **(5,022)** | (5,332) | **(5,022)** | (5,332) |
| **NET ASSETS** | | **195,845** | 186,493 | **195,769** | 186,693 |
| **FINANCED BY** | | | | | |
| Public Dividend Capital | 24 | **9,077** | 8,571 | **9,077** | 8,571 |
| Loan capital | 25 | **12,560** | 13,107 | **12,560** | 13,107 |
| Revaluation reserve | 26 | **2,596** | 2,010 | **2,596** | 2,010 |
| General reserve | 26 | **171,612** | 162,805 | **171,536** | 163,005 |
| | | **195,845** | 186,493 | **195,769** | 186,693 |

The Notes on pages 19 to 51 form part of these Accounts



Brian Willott
*Accounting Officer*

*3 July 2000*

# Datganiad Llif Arian Cyfun

**Am y flwyddyn yn gorffen ar 31 Mawrth 2000**

| | Nodyn | 2000<br>£'000 | 1999<br>£'000<br>(Ailddatgan) |
|---|---|---|---|
| **GWEITHGAREDDAU GWEITHREDOL** | | | |
| All-lif arian net o weithgareddau gweithredol | 27 | **(126,425)** | (118,852) |
| **TRETHIANT** | | | |
| Treth Gorfforaeth y DU a dalwyd | | **(697)** | (1,751) |
| **All-lif arian o drethiant** | | **(697)** | (1,751) |
| **GWARIANT CYFALAF A BUDDSODDIADAU ARIANNOL** | | | |
| Derbyniadau o werthiant asedau diriaethol a budd mewn cyd-fentrau | | **10,624** | 3,128 |
| Derbyniadau o werthiant buddsoddiadau ecwiti | | **928** | 115 |
| Ad-daliadau morgais a benthyciad a dderbyniwyd | | **2,177** | 2,127 |
| Taliadau i gaffael asedau diriaethol a budd mewn cyd-fentrau | | **(4,854)** | (3,239) |
| Taliadau i gaffael buddsoddiadau ecwiti ac i wneud benthyciadau | | **(893)** | (158) |
| **Mewnlif arian net o wariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol** | | **7,982** | 1,973 |
| **ARIAN A DROSGLWYDDWYD O SEFYDLIADAU ERAILL** | | | |
| Bwrdd Datblygu Cymru Wledig | | - | 440 |
| Awdurdod Tir Cymru | | - | 4,045 |
| Hybu Bwyd Cymru Cyf | | - | 294 |
| **Mewn-lif arian net o sefydliadau eraill** | | | 4,779 |
| **CYLLIDO** | | | |
| Cymorth grant Llywodraeth EM a dderbyniwyd | | **114,812** | 117,300 |
| Cronfeydd Ewropeaidd a dderbyniwyd | | **4,915** | 3,827 |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus a dderbyniwyd | | **506** | 1,225 |
| Benthyciadau Cronfa Fenthyciadau Genedlaethol | | **45** | 58 |
| Ad-daliadau cyfalaf benthyca a wnaed | | **(592)** | (2,748) |
| Taliadau a wnaed i ostwng Cyfalaf Difidend Cyhoeddus | | - | (1,500) |
| **Mewn-lif arian net o reoli asedau hylifol a chyllido** | | **119,686** | 118,162 |
| **CYNNYDD MEWN ARIAN** | | **546** | 4,311 |
| **CYSONI LLIF ARIAN NET GYDA SYMUDIAD MEWN DYLED NET** | | | |
| Cynnydd mewn arian yn ystod y cyfnod | | **546** | 4,311 |
| Cyfalaf benthyciad a drosglwyddwyd gan sefydliadau eraill ar 1 Hydref 1998 | | - | (13,232) |
| Cyfalaf benthyciad a gaffaelwyd yn ystod y flwyddyn | | **(45)** | (58) |
| Cyfalaf benthyciad a ad-dalwyd yn ystod y flwyddyn | | **592** | 2,748 |
| **Newid mewn dyled net** | | **1,093** | (6,231) |
| (Dyled net)/Cronfeydd ar 1 Ebrill | | **(5,508)** | 723 |
| **Dyled net ar 31 Mawrth** | 28 | **(4,415)** | (5,508) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 18 i 50 yn ffurfio rhan o'r Cyfrifon hyn.

# Consolidated Cash Flow Statement
## For the year ended 31 March 2000

| | Note | 2000 £'000 | 1999 £'000 (Restated) |
|---|---|---|---|
| **OPERATING ACTIVITIES** | | | |
| Net cash outflow from operating activities | 27 | **(126,425)** | (118,852) |
| **TAXATION** | | | |
| UK Corporation tax paid | | **(697)** | (1,751) |
| **Net cash outflow from taxation** | | **(697)** | (1,751) |
| **CAPITAL EXPENDITURE AND FINANCIAL INVESTMENTS** | | | |
| Receipts from the sale of tangible assets and interests in joint ventures | | **10,624** | 3,128 |
| Receipts from the sale of equity investments | | **928** | 115 |
| Mortgage and loan repayments received | | **2,177** | 2,127 |
| Payments to acquire tangible assets and interests in joint ventures | | **(4,854)** | (3,239) |
| Payments to acquire equity investments and to make loans | | **(893)** | (158) |
| **Net cash inflow from capital expenditure and financial investments** | | **7,982** | 1,973 |
| **CASH TRANSFERRED FROM OTHER ORGANISATIONS** | | | |
| Development Board for Rural Wales | | - | 440 |
| Land Authority for Wales | | - | 4,045 |
| Welsh Food Promotions Ltd | | - | 294 |
| **Net cash inflow from other organisations** | | - | 4,779 |
| **FINANCING** | | | |
| HM Government grant in aid received | | **114,812** | 117,300 |
| European funds received | | **4,915** | 3,827 |
| Public Dividend Capital received | | **506** | 1,225 |
| National Loans Fund borrowings | | **45** | 58 |
| Loan capital repayments made | | **(592)** | (2,748) |
| Payments made in reduction of Public Dividend Capital | | - | (1,500) |
| **Net cash inflow from management of liquid resources and financing** | | **119,686** | 118,162 |
| **INCREASE IN CASH** | | **546** | 4,311 |
| **RECONCILIATION OF NET CASH FLOW TO MOVEMENT IN NET DEBT** | | | |
| Increase in cash during the period | | **546** | 4,311 |
| Loan capital transferred from other organisations at 1 October 1998 | | - | (13,232) |
| Loan capital acquired during year | | **(45)** | (58) |
| Loan capital repaid during year | | **592** | 2,748 |
| Change in net debt | | **1,093** | (6,231) |
| (Net debt)/Funds at 1 April | | **(5,508)** | 723 |
| **Net debt at 31 March** | 28 | **(4,415)** | (5,508) |

The notes on pages 19 to 51 form part of these Accounts

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 1. DATGANIAD BOLISÏAU CYFRIFEG

### Sail Cyfrifeg

Mae angen y cyfrifon hyn, heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, i ateb gofynion cyfrifeg a datgeliad Deddf Cwmnïau 1985 a safonau cyfrifeg a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifeg cyn belled ag mae'r gofynion hynny yn briodol i'r Awdurdod. Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i addaswyd gan brisiad marchnad agored tir ac adeiladau ar gyfer ei defnydd yr Awdurdod ei hun ac eiddo neilltuol ar gyfer ailwerthu. Eithrir yr Awdurdod rhag y gofynion dan Safonau Adrodd Ariannol rhif 3 i gynhyrchu nodyn o elw a cholledion cost hanesyddol.

### Cyfuno

